

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri



Polisiau fersiwn Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Eryri

Aseuadau Effaith Cydraddoldeb - Sgrinio 2018

Cyflwyniad

Parc Cenedlaethol Eryri

Dynodwyd Parc Cenedlaethol Eryri ym 1951 o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn ymestyn dros 213,200 hectar o gefn gwlad sy'n amrywio o fynyddoedd a gweundir i goetir ac arfordir. Mae tua 26,000 o bobl yn byw yn y Parc a chredir bod 10.5 miliwn yn ymweld â'r ardal bob blwyddyn.

Mae tua 59% o drigolion y Parc Cenedlaethol yn siarad Cymraeg.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Sefydlwyd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 fel awdurdod lleol un pwrpas. Mae ganddo'r pwrpasau canlynol yn ôl diffiniad y Ddeddf:

- *Gwarchod a gwella'r harddwch naturiol, bywyd gwylt a'r dreftadaeth ddiwylliannol; a*
- *Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc (Cenedlaethol).*

Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am gynllunio, cadwraeth, rheoli tir, mynediad a hamdden, ond nid yw'n gyfrifol am ofalu am yr henoed, ysgolion, priffyrdd, gwagio biniau ysbwriel a dyletswyddau eraill Awdurdod Lleol.

Â'r Ddeddf yn ei blaen i ddweud y dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol wrth iddo ddiwallu Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol ac i'r diben hwnnw dylai gydweithredu gyda'r awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus hynny lle mae hyrwyddo datblygiad economaidd a chymdeithasol yn ardal y Parc Cenedlaethol yn rhan o'u dyletswyddau.

At hyn, o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer y Parc Cenedlaethol cyfan. Mae'r Awdurdod felly'n gyfrifol am gynhyrchu Cynllun Rheolaeth y Parc, y Cynllun Datblygu Lleol ac am benderfynu ceisiadau cynllunio.

Y Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Diben Deddf 'Cydraddoldeb' 2010 yw gofalu bod cymdeithas yn fwy teg a chyfartal i bawb trwy roi terfyn ar wahaniaethu, hyrwyddo cyfleoedd a deilliannau cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol unigolion a chymunedau.

Mae'r ddeddf yn amnewid y 116 o statudau ar wahân am gydraddoldeb gan symleiddio ac egluro rôl yr awdurdodau lleol fel arweinyddion ar gyfer gwella cydraddoldeb ymhlith cymunedau a'u dinasyddion. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio dyletswyddau penodol ac iddyn nhw ofynion manwl a heriol i awdurdodau lleol – ond mae pwyslais ar 'ystyriaeth briodol' yn rhoi mwy o ryddid i awdurdodau i gynhyrchu'r atebion cywir mewn ymateb i broblemau penodol lleol ac maent yn fwy atebol i'w cymunedau.

Pwy a ddiogelir o dan y Ddeddf?

Mae'r ddeddf yn cyflwyno rhestr newydd o nodweddion sydd i'w diogelu yn lle amryw agweddau cydraddoldeb. Mae'r carfanau hynny i'w diogelu trwy gyfrwng dyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol y ddeddf.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymwneud â'r nodweddion isod:

- *Oedran*
- *Newid rhyw*
- *Rhyw*
- *Tras – gan gynnwys tarddiad ethnig / cenedlaethol, lliw a chenedl*
- *Anableddau*
- *Beichiogrwydd a mamolaeth*
- *Tueddfryd rhywiol*
- *Crefydd, cred neu ddim cred*

Mae'n ymwneud â phriodasau a phartneriaethau sifil hefyd, ond dim ond ynglŷn â rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i gael gwared ar anffafiaeth.

Yr Iaith Gymraeg

Er nad ystyrir bod yr iaith Gymraeg yn nodwedd a ddiogelir o dan y ddeddfwriaeth, mae'r Awdurdod yn credu na ddylai pobl Cymru ddioddef unrhyw anffafiaeth yn sgil defnydd o'r iaith Gymraeg na'r dymuniad i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri, gan fod 59% o'r boblogaeth yn Gymry Cymraeg.

Yn unol â'r ymrwymiad a amlinellir yng Nghynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod (sydd nawr wedi'i ddisodli gan y safonau'r Gymraeg), bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei chynnwys fel rhan o becyn asesu'r effaith ar gydraddoldeb. Mae Atodiad 4 yn cynnwys copi o dempled asesu'r effaith ar gydraddoldeb. Trwy ddefnyddio'r templed hwn, byddwn yn sicrhau na fydd unrhyw strategaethau, polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau sy'n cael eu cynhyrchu gan yr Awdurdod yn gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n siarad Cymraeg, a bydd yn hytrach yn edrych ar ffyrdd o hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg.

Y ddyletswydd gyffredinol

Rhaid i awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill roi ystyriaeth briodol i'r angen i:

1. Gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y ddeddf.
2. Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.
3. Meithrin perthynas dda ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.

Golyga rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i gyflawni'r rhain y dylid:

- *chwalu neu leddfu'r anfanteision a deimlir gan bobl mewn perthynas â'r nodweddion sydd wedi'u diogelu sydd ganddynt;*
- *cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl y carfanau sydd wedi'u diogelu, pan fo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill;*
- *annog pobl sydd â nodweddion wedi'u diogelu i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill lle mae nifer cymharol fychan ohonynt yn cyfranogi.*

Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod gael trefniadau yn eu lle i alluogi ar gyfer asesu'r effaith tebygol unrhyw bolisiau ac ymarferion arfaethedig ar ein gallu i gydymffurfio gyda'r ddyletswydd gyffredinol, ynghyd ag effaith unrhyw bolisiau neu ymarferion rydym yn penderfynu eu hadolygu neu eu diwygio.

Am bob polisi neu ymarfer newydd (neu adolygiad o bolisi neu ymarfer presennol) bydd yr Awdurdod yn asesu'r effaith tebygol ar bobl fydd yn rhannu nodweddion a ddiogelir trwy ymgymryd ag asesiad sgrinio cychwynnol.

Os yw'r polisi neu ymarfer yn debygol o gael effaith, bydd asesiad o effaith cydraddoldeb llawn yn cael i gyflawni a bydd adroddiad o'r asesiad yn cael ei gynhyrchu. Bydd pob adroddiad ar yr asesiad yn cynnwys y canlynol:

- *pwrpas y polisi neu'r ymarfer sy'n cael ei asesu, os yw'n bolisi newydd neu yn un sy'n bodoli'n barod sy'n cael ei adolygu neu ei ddiwygio;*

- *crynodeb o'r camau a gymerwyd i asesu'r effaith tebygol ar y polisi neu ymarfer diwygiedig neu arfaethedig;*
- *crynodeb o'r dystiolaeth a chafodd ei ystyried fel rhan o'r broses asesu;*
- *canlyniadau'r asesiad; ynghyd â*
- *unrhyw benderfyniadau cymerwyd yn dilyn yr asesiad.*

Ymgwymerwyd â sgrinio cychwynnol ar y Fersiwn Adneuo Drafft o'r Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 - 2031 yn 2017. Adolygwyd hyn eto ym mis Ionawr 2018 i edrych yn benodol ar y newidiadau ffocws.

Yn dilyn yr archwiliad cyhoeddus, roedd y polisïau hynny a newidiwyd ac oedd yn destun i faterion a godwyd, nawr angen adolygiad pellach. Mae'r atodiad ynghlwm yn rhoi ystyriaeth i bob un o'r polisïau yma yn eu tro, gan baratoi disgrifiad byr o'r pwrpas a'r nod o'r polisi ynghyd â sylwebaeth ar yr ystyriaeth a rhoddwyd i effaith y polisi, ac yn benodol i ystyried a yw'r polisi yn mynd i gael effaith mawr ar bobl sydd gan nodweddion a ddiogelir.

ATODIAD 1 ASESIAID O'R POLISIAU

Polisi Strategol C: Strategaeth Datblygu Gofodol

Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Pennaeth Polisiâu a Chynlluniau Strategol & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

Disgrifiad byr o'r Polisi – pwrpas a nod

Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd datblygiadau newydd yn cael eu dosbarthu i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion Gofodol. Mae'r polisi yn caniatáu datblygu ar gyfer tai newydd, cyflogaeth a darpariaeth gwasanethau a chyfleusterau mewn aneddiadau yn ô lei ddynodiad o fewn hierarchaeth anheddiad, gyda'r nod cyffredinol o wneud cymunedau'n fwy hunan-gynhaliol.

Polisi Strategol C: Strategaeth Datblygu Gofodol (C)

Bydd datblygiadau gofodol ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn seiliedig ar yr hierarchaeth a ganlyn:

Canolfannau Gwasanaethau Lleol – Dolgellau a'r Bala

- i. Tai ar gyfer y farchnad agored a thai fforddiadwy i fodloni angen lleol.
- ii. ~~Bydd datblygiadau tai newydd yn cael eu cyfyngu i amrediad rhwng 23% a 35% 17% 30% 22% a 34% o'r gofyniad tai cyffredinol a bydd yn cael ei fonitro yn ystod oes y Cynllun.~~
- iii. Cefnogi cyfleoedd sydd eisoes yn bodoli am waith, neu i gynnig mwy o gyfleoedd, er mwyn cefnogi'r economi wledig.
- iv. Gwella cyfleusterau presennol a chynnig cyfleusterau newydd i wasanaethu trigolion lleol i gryfhau ei swyddogaeth fel canolfan gwasanaethau lleol a chefnogi ei swyddogaeth fel cyrchfan i ymwelwyr.
- v. Datblygiadau manwerthu wedi'u lleoli yn agos at y prif ardaloedd manwerthu.

Aneddiadau Gwasanaethau

- vi. Tai ar gyfer y farchnad agored a thai –fforddiadwy ar raddfa fach i ddiwallu angen lleol.
- vii. ~~Bydd datblygiadau tai newydd yn cael eu cyfyngu i amrediad rhwng 10% a 16% 9% a 13% 10% a 14% o'r gofyniad tai cyffredinol a bydd yn cael ei fonitro yn ystod oes y Cynllun.~~
- viii. Datblygiadau ar gyfer cyflogaeth ar raddfa fach i gefnogi cyfleoedd sydd eisoes yn bodoli am waith, neu i gynnig mwy o gyfleoedd, er mwyn cefnogi'r economi wledig yn unol â Pholisi Datblygu 19.
- ix. Gwella cyfleusterau cymunedol presennol a chynnig cyfleusterau newydd i wasanaethu trigolion lleol.
- x. Cryfhau ei swyddogaeth fel anheddiad gwasanaethau sy'n gwasanaethu'r anheddiad a'r gymuned gyfagos.
- xi. Cefnogi ei swyddogaeth fel cyrchfan i ymwelwyr.
- xii. Datblygiadau manwerthu yn ardaloedd manwerthu Harlech, Aberdyfi a Betws y Coed.

Aneddiadau Eilaidd

- xiii. Tai ar gyfer y farchnad agored a thai -fforddiadwy ar raddfa fach i ddiwallu angen lleol.

- ~~xiv.~~ ~~Bydd datblygiadau tai newydd yn cael eu cyfyngu i hyd at 48%, 5347% 53% o'r gofyniad tai cyffredinol a bydd yn cael ei fonitro yn ystod oes y Cynllun.~~
- xv. Datblygiadau ar gyfer cyflogaeth ar raddfa fach i gefnogi cyfleoedd sydd eisoes yn bodoli am waith, neu i gynnig mwy o gyfleoedd, er mwyn cefnogi'r economi wledig [yn unol â Pholisi Datblygu 19](#).
- xvi. Gwella cyfleusterau cymunedol presennol a chynnig cyfleusterau newydd i wasanaethu trigolion lleol a chryfhau ei swyddogaeth i ddarparu gwasanaethau i'r cyron gwledig.

Aneddiadau Llai

- xvii. Tai fforddiadwy ar ffurf unedau sengl i ddiwallu angen lleol.
- xviii. ~~Bydd datblygiadau tai newydd yn cael eu cyfyngu i hyd at 9%, 7 137% o'r gofyniad tai cyffredinol a bydd yn cael ei fonitro yn ystod oes y Cynllun.~~
- xix. Gwella cyfleusterau cymunedol presennol a chynnig cyfleusterau newydd i wasanaethu trigolion lleol lle nad oes unrhyw leoliadau addas yn bodoli yn yr aneddiadau a restrir yn yr hierarchaeth aneddiadau.
- xx. [Trosi adeiladau i gefnogi defnydd economaidd.](#)
- xxi. [Mewn amgylchiadau eithriadol, datblygiadau cyflogaeth a hyfforddiant newydd ar raddfa fach yn unol â Pholisi Datblygu 19](#)

Cefn gwlad agored

- xxii. Trosi adeiladau gwledig i gefnogi defnydd economaidd.
- xxiii. Trosi adeiladau gwledig i dai fforddiadwy er mwyn diwallu angen lleol.
- ~~xxiv.~~ ~~Bydd datblygiadau tai newydd drwy drosiadau yn cael eu cyfyngu i hyd at 8%, 16% 12% o'r gofyniad tai cyffredinol a bydd yn cael ei fonitro yn ystod oes y Cynllun.~~
- xxv. Tai newydd yn lle'r rhai presennol.
- xxvi. Tai sy'n ymwneud ag angen hanfodol i fyw yng nghefn gwlad yn unol â pholisïau cynllunio cenedlaethol.
- xxvii. Cyfleusterau cymunedol hanfodol eraill i wasanaethu trigolion lleol lle nad oes unrhyw leoliadau addas yn yr aneddiadau a restrir yn yr hierarchaeth aneddiadau.
- xxviii. Datblygiadau Amaethyddol sydd yn ymdoddi'n naturiol i'r tirlun.
- xxix. [Mewn amgylchiadau eithriadol, datblygiadau cyflogaeth a hyfforddiant newydd ar raddfa fach yn unol â Pholisi Datblygu 19](#)
- xxx. [Datblygiad economaidd fel rhan o ddyraniad Parth Menter Eryri yn unol â Pholisi Datblygu 27.](#)

A ydych yn ystyried fod y polisi yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n bositif neu'n negyddol)

Positif. Mae'r polisi yma wedi'i sefydlu ar yr Arolwg Aneddiadau diweddar ar wasanaethau a chyfleusterau lleol ynghyd â darpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r Strategaeth Gofodol wedi cymryd i ystyriaeth darpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus wrth ddsbarthu datblygiadau newydd yn y Parc Cenedlaethol.

Mae'r polisi yma yn berthnasol i'r holl aneddiadau o fewn y Parc Cenedlaethol, ac felly ni fydd yn cael effaith anghyfartal ar unrhyw berson neu grŵp ac ni fydd yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grwpiau penodol.

Yn ychwanegol at hyn, mae Polisi Strategol A: Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygu Cynaliadwy, sydd yn bolisi strategol trosafael i'r Cynllun, yn cynnwys yr angen i roi ystyriaeth briodol i alluogi mynediad cynhwysol at wasanaethau, cyfleusterau a chyflogaeth i sicrhau datblygu cynaliadwy yn Eryri.

Ychwanegiadau i'r polisi hwn yw 'datblygiadau cyflogaeth a hyfforddiant ar raddfa fach' ac 'trosi adeiladau i gefnogi defnydd economaidd'. Mae'r newidiadau yma i'r polisi gyda'r potensial i ddatblygu mwy o gyfleoedd cyflogaeth mewn aneddiadau.

Mae'r ymchwil yn awgrymu bod rhai pobl gyda nodweddion a ddiogelir yn cael trafferthion gyda chael eu cyflogi oherwydd ystod eang o ffactorau. Un enghraifft yw bod pobl anabl weithiau hefo ddiffyg opsiynau trafniadaeth i allu teithio i'r gwaith. O dan yr amgylchiadau hyn, croesawir galluogi datblygu cyfleoedd cyflogaeth newydd yn lleol. Mi fydd y cynnig yma hefyd yn gallu rhoi cefnogaeth i warchod sgiliau iaith Gymraeg yn lleol, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc, sydd yn aml yn nodi diffyg cyflogaeth fel rheswm am symud i ffwrdd o'u cymunedau.

Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau

Nid oes unrhyw arwydd bod y polisi yma am wahaniaethu neu gael effaith negyddol ar unrhyw grwpiau o bobl gyda nodweddion a ddiogelir. Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

Ffynhonnell Data a Thystiolaeth

Archwiliad Cyhoeddus CDLIE.

Arolwg Aneddiadau.

Data'r Cyfrifiad 2011.

Ymatebion i'r ymgynghoriad.

Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r polisi fel canlyniad i'r broses sgrinio.

Nid oes unrhyw newidiadau wedi cael eu gwneud i'r polisi sydd yn cael effaith ar unrhyw faterion cydraddoldeb.

Polisi Strategol G: Tai

Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Pennaeth Polisiâu a Chynlluniau Strategol & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

Disgrifiad byr o'r Polisi – pwrpas a nod

Pwrpas y polisi hwn yw i diwallu anghenion tai cymunedau lleol o fewn ardaloedd adeiledig a gan safleoedd eithredig y tu allan i ffiniau datblygu tai. Fodd bynnag, trwy Newidiadau Materion a Godwyd, rhannwyd y polisi hwn yn ddwy (Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy), er mwyn sicrhau bod yr elfennau allweddol wedi'u cynnwys o fewn polisiau priodol mewn dull cydlynol.

Polisi Strategol : Tai (G)

[Mae gan Gynllun Datblygu Lleol Eryri ofyniad cynllun o 770 o anheddau ac mae'n darparu ar gyfer tua 840 885 o anheddau newydd hyd at 2031.](#)

Bydd angen i dai newydd yn y Parc Cenedlaethol gwrdd ag angen cymunedau lleol. Rhaid i geisiadau gymryd ystyriaeth briodol o anghenion tai lleol yn nhermau maint, math a daliadaeth eiddo. Dylai'r mathau o dai adlewyrchu canlyniadau'r Asesiad Marchnad Dai Leol neu unrhyw arolygon anghenion lleol priodol.

[Dylai datblygiadau preswyl wneud y defnydd gorau o dir. Bydd yr Awdurdod yn ceisio dwysedd o 30 annedd yr hectar ar gyfer datblygiad preswyl \(oni bai fod amgylchiadau lleol megis cymeriad yr ardal sy'n awgrymu y gall dwysedd is fod yn fwy priodol\).](#)

[Rhestrir dyraniadau tai isod ac fe'u dangosir ar y Mapiau Cynigion a Mewnosodiadau.](#)

Hierarchiaeth	Dyraniadau	Unedau amcangyfrifedig
Canolfan Wasanaeth Leol	Tir y tu ôl i'r Llew Coch, Y Bala (80% o'r farchnad agored, 20% o dai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol). Rhyddhau 30 uned hyd at 2021 ac, os adeiladwyd, y 25 uned sy'n weddill o 2026 i 2031	55
Canolfan Wasanaeth Leol	Tir yng Nghysgod y Coleg, Y Bala (100% o dai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol)	10
Canolfan Wasanaeth Leol	Tir y tu ôl i Wenallt, Dolgellau (100% o dai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol)	15
Anheddiad Gwasanaeth	Cyn Ysgol Gynradd, Aberdyfi (100% o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol)	6
Anheddiad Gwasanaeth	Tir ger Penyrhwylfa, Harlech (67% o'r farchnad agored 33% o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol)	24

Anheddiad Gwasanaeth	Tir ger Bro Prysor, Trawsfynydd (100% o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol)	10
Anheddiad Eilaidd	Tir ger Pentre Uchaf, Dyffryn Ardudwy (100% o dai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol)	10
Anheddiad Eilaidd	Tir ger Capel Horeb, Dyffryn Ardudwy (50% o'r farchnad agored, 50% o dai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol)	5
Anheddiad Eilaidd	Tir ger Garreg Frech, Llanfrothen (100% o dai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol)	6
Anheddiad Eilaidd	Tir ger Maes y Pandy, Llanuwchllyn (100% o dai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol)	7
Anheddiad Eilaidd	Tir ger Lawnt y Plas, Dinas Mawddwy (100% o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol)	6
Anheddiad Eilaidd	Tir yn y Cyn Felin Wlân, Trefriw (50% o'r farchnad agored, 50% o dai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol)	5
Anheddiad Eilaidd	Tir ger Rathbone Terrace, Dolwyddelan (100% o dai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol)	6
Anheddiad Eilaidd	Tir yn Y Rhos, Llanegryn (50% o'r farchnad agored, 50% o dai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol)	8
Secondary Settlement	Tir ger Bryn Deiliog, Llanbedr (100% o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol)	6
Anheddiad Eilaidd	Tir ger Maesteg, Pennal (100% o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol)	5
	Cyfanswm	184

A ydych yn ystyried fod y polisi yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n bositif neu'n negyddol)

Niwtral.

Mae'r polisi yma yn amlinellu'r dosbarthiad tai mewn gwahanol aneddiadau, a hefyd yn rhoi dadansoddiad fel canran o faint o'r tai bydd yn gartrefi fforddiadwy.

Mae'r dyraniad o dai fforddiadwy yn bwysig iawn, gan fod canran uchel o bobl wedi cael eu prisio allan o'r farchnad dai lleol yn y gymuned. Mae'r data yn dangos bod 60% o deuluoedd Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad tai lleol, ac mae 21% o'r trigolion mewn tldi tanwydd.

Yn 2015, roedd cyfartaledd cyflog gross yng Ngwynedd yn £415 ac yn £474 yng Nghonwy, sy'n is na'r cyfartaledd Cymru sy'n £479. Mae argaeledd tai fforddiadwy newydd felly yn ffactor pwysig iawn i alluogi cefnogi'r boblogaeth leol.

Mae'r data yn dangos i ni bob rhai pobl gyda nodweddion a ddiogelir fel pobl anabl, pobl ifanc a phobl hŷn yn ystadegol yn fwy tebygol o ennill llai na'r cyflog cyfartalog, oherwydd ffactorau fel byw

mewn ardaloedd gwledig sy'n cyfyngu ar opsiynau trafndiaeth a chyfleoedd cyflogaeth. Mae'r polisi felly, gyda'r potensial nid yn unig i fod yn bositif i'r boblogaeth leol cyffredinol, ond yn benodol i rai pobl sydd gyda nodweddion a ddiogelir.

Yn ychwanegol, gallai'r polisi yma rhoi cymorth i'r iaith Gymraeg, gan fydd gan bobl (yn enwedig pobl ifanc) fwy o gyfleoedd i aros yn eu cymunedau lleol oherwydd y gallu i brynu tŷ yn lleol. Un o'r materion sydd effeithio ar sgiliau iaith Gymraeg yn Eryri yw'r allfudiad o siaradwyr Gymraeg ifanc ar fewnfudiad o bobl sy'n symud i mewn i'r Parc Cenedlaethol i ymddeol. Mae'r polisi yma gyda'r potensial i negyddu'r gwanhad yn yr iaith Gymraeg yn lleol.

Meini Prawf ar gyfer Tai Fforddiadwy:

Pan mae'n rhaid dangos angen am dy, mae'r meini prawf cymhwyster wedi cael eu dylunio'n fras, ac felly yn annhebygol o wahaniaethu yn uniongyrchol.

Mae'r diffiniad am angen tai yn y polisi yma yn cynnwys person sydd:

- Gyda gofyn angenrheidiol i fyw yn agos at berson arall sydd gyda lleiafswm o 10 mlynedd o breswylfa barhaol a di-dor yn yr ardal cymhwyso, y gofyn angenrheidiol yn codi oherwydd oedran neu reswm meddygol.
- Gofynion ychwanegol (oherwydd oed neu amhariad).

Gan fod llai na 3% o boblogaeth y Parc Cenedlaethol yn lleiafrif ethnig, nid yw'r polisi yma yn debygol o wahaniaethu yn erbyn y grŵp yma yn anghyfartal ac eraill. Ni fydd ffoaduriaid a cheiswyr lloches fel y rhai sydd wedi ymgartrefu yn lleol trwy er enghraifft y Rhaglen Ailsefydlu Ffoaduriaid o Syria yn cael eu heffeithio, gan eu bod yn cael llety rhent ac yn annhebygol o fod yn y farchnad dai.

Pryn bynnag, nid oes unrhyw gyfeiriad at dai hygyrch neu wedi eu haddasu yn y polisi. Mae'n bwysig i gynnwys tai hygyrch fel ystyriaeth yn y camau cychwynnol oherwydd bydd angen ôl troed mwy i bob cartref i'r rhai gydag amhariad symudol, yn enwedig defnyddwyr cadair olwyn; sydd angen toiled a chawod ar y llawr gwaelod, a hefyd i'r rhai sydd angen lle ar gyfer staff cynorthwyol i aros yn y tŷ. Pryn bynnag, nod y polisi yn y pendraw yw adnabod cyfanswm y nifer o dai, yn hytrach na'r maint ar ddyluniad, a fydd yn cael ystyriaeth yn y cam datblygu, felly nid yw'n berthnasol yma.

Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau

Nid oes unrhyw arwydd bod y polisi yma am wahaniaethu neu gael effaith negyddol ar unrhyw grwpiau o bobl gyda nodweddion a ddiogelir. Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

Ffynhonnell Data a Thystiolaeth

Archwiliad Cyhoeddus CDLIE.

Arolwg Aneddiadau.

Data'r Cyfrifiad 2011.

Ymatebion i'r ymgynghoriad.
Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn.
Cynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych.

Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r polisi fel canlyniad i'r broses sgrinio.
Newid wedi cael ei adnabod trwy'r broses archwilio gyhoeddus. Mae'r polisi gwreiddiol wedi cael ei rhannu'n ddau.

Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy

Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Pennaeth Polisiâu a Chynlluniau Strategol & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

Disgrifiad byr o'r Polisi – pwrpas a nod

Pwrpas y polisi hwn yw cwrdd ag anghenion tai fforddiadwy cymunedau lleol o fewn ardaloedd adeiledig a gan safleoedd eithriedig y tu allan i ffiniau datblygu tai. Mae targed Tai Fforddiadwy wedi'i gynnwys yn y polisi Tai Fforddiadwy ynghyd â thestun ychwanegol i sicrhau y dylid nodi hyn mewn anheddiad llai ar gyfer mwy na 2 annedd ychwanegol dros gyfnod y cynllun, fel y'i cynhwysir yn y cynllun presennol.

Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy (30)

Mae cyfleoedd datblygu wedi'u nodi o fewn y Cynllun i ddarparu targed o 375 o dai fforddiadwy newydd i ddiwallu anghenion lleol

Ceisir y cyfraniadau tai fforddiadwy a ganlyn ar bob safle:

- i) O fewn Canolfannau Gwasanaeth Lleol 20% ar safleoedd o 5 annedd neu fwy
- ii) O fewn Aneddiadau Gwasanaeth 33% ar safleoedd o 3 annedd neu fwy
- iii) O fewn Aneddiadau Eilaidd 50% ar safleoedd o 2 annedd neu fwy
- iv) Ar safleoedd O fewn anheddiadau llai sy'n union gyfagos at eiddo wedi'i amlygu fel y dangosir ar y mapiau mewnosod, hyd at ddau annedd sengl newydd ar gyfer 100% tai fforddiadwy. Fel eithriad, caniateir mwy na dau annedd lle mae'r angen wedi cael ei brofi a ble na chaiff cymeriad a lleoliad yr anheddiad ei amharu.
- v) Ar safleoedd sy'n cael eu datblygu gan Gymdeithasau Tai, Ymddiriedolaethau neu gyrff tebyg a gymorthdelir 100%
- vi) Ar gyfer trosiadau mewn unrhyw le, 50% neu gyfraniad swm gohiriedig ar gyfer un annedd. Fel arall, gall y trosiad fod yn 100% fforddiadwy gydag amodau meddiannaeth leol

~~Bydd y cyflenwad o dai newydd yn cael ei ddarparu drwy:~~

~~Safleoedd a Neilltuwyd~~

~~i — Dyrannu safleoedd ar gyfer 100% tai fforddiadwy i fedloni angen lleol ar dir cyhoeddus a 50% tai fforddiadwy i fedloni angen lleol ar dir preifat o fewn ffiniau datblygu tai aneddiadau (a ddangosir ar y mapiau manwl).~~

~~Cyflwyno'r safle y tu ôl i Llew Coch yn Y Bala fesul cyfnod trwy ganiatáu rhyddhau 30 uned hyd 2016 ac, os y'u hadeiladwyd, y 25 uned sy'n weddill o 2016 hyd 2022.~~

~~Safleoedd heb eu Neilltuo~~

~~iii — Ceisio 50% tai fforddiadwy i fedloni angen lleol ar safleoedd heb eu neilltuo yn Nolgellau a'r Bala.~~

iv— Ceisio 100% tai fforddiadwy i fedloni angen lleol ar bob adeilad newydd ar safleoedd heb eu neilltuo o fewn ffiniau datblygu tai Aneddiadau Gwasanaeth ac Aneddiadau Eilaidd. Ar gyfer pedwar neu fwy o dai, byddir yn ceisio 50% tai fforddiadwy i fedloni angen lleol

Cefnogi datblygiad o hyd at ddau annedd sengl newydd ar gyfer 100% tai fforddiadwy i fedloni angen lleol o fewn Aneddiadau Llai (os yw'r safle union gerllaw eiddo a amlygwyd ar y map manwl anheddiad). Eithriadol, caniateir mwy na dau annedd lle gellir profi'r angen ac nad amharu'r ar gymoriad a gosodiad yr anheddiad

Cefnogi 100% tai fforddiadwy graddfa fach ar gyfer angen lleol ar safleoedd eithriadig sydd union gerllaw ffiniau datblygu tai i gwrdd ag angen dynodedig lleol yn unol â Pholisi Datblygu 11.

Ceisio 50% tai fforddiadwy i fedloni angen lleol ar bob trosiad

Pan fydd cynigion preswyl cyfagos a chysylltiedig yn arwain at niferoedd cyfunol neu faint safleoedd sy'n fwy na'r trothwyon uchod, bydd yr Awdurdod yn ceisio tai fforddiadwy yn seiliedig ar y canrannau targed tai fforddiadwy a nodwyd uchod.

Os gellir dangos yn glir na ellir cwrdd â'r targedau tai fforddiadwy mynegol uchod yn sgil hyfywedd safleoedd, neu y gellir mynd y tu hwnt iddynt mewn rhai achosion, bydd yr Awdurdod yn trafod cyfraniad tai fforddiadwy priodol ar safleoedd unigol, a all gynnwys taliad gohiriedig priodol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn berthnasol i safleoedd eithriadig na safleoedd mewn aneddiadau llai lle ceisir cyfraniad fforddiadwy o 100% bob amser.

Bydd caniatâd cynllunio ar gyfer annedd fforddiadwy newydd yn destun i gytundeb cyfreithiol i sicrhau ei fod yn aros yn fforddiadwy am byth i berson lleol mewn angen tŷ fel y'i diffinir ym mharagraff 5.44²⁶ & 5.42²⁷.

Dylai unedau tai fforddiadwy newydd gael eu hintegreiddio'n llawn a dylent fod cystal os nad gwell nag unedau tai marchnad yn nhermau ansawdd a deunyddiau dylunio allanol

Bydd maint unedau tai fforddiadwy gymesur ag anghenion yr aelwyd arfaethedig

Bydd hawliau datblygu a ganiatawyd ar yr holl unedau tai fforddiadwy yn cael eu tynnu ymaith er mwyn rheoli'r modd y gallent gael eu hymestyn yn y dyfodol

Dylai pob uned newydd ac addasiad fod o ddyluniad cynaliadwy o ansawdd dda yn unol â Pholisi Datblygu 6: Dylunio a Deunyddiau Cynaliadwy, a chyflawni safonau datblygu Llywodraeth y Cynulliad Cymru sy'n cynnwys safon cartrefi am oes

A ydych yn ystyried fod y polisi yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n bositif neu'n negyddol)

Niwtral.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r canran o gyfraniadau tai fforddiadwy fesul safle

Fel yn y sgriniad blaenorol, mae'r dyraniad o dai fforddiadwy yn bwysig iawn, gan fod canran uchel o bobl wedi cael eu prisio allan o'r farchnad dai lleol yn y gymuned. Mae'r data yn dangos bod 60% o deuluoedd Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad tai lleol, ac mae 21% o'r trigolion mewn tlodi tanwydd.

Yn 2015, roedd cyfartaledd cyflog gross yng Ngwynedd yn £415 ac yn £474 yng Nghonwy, sy'n is na'r cyfartaledd Cymru sy'n £479. Mae argaeledd tai fforddiadwy newydd felly yn factor pwysig iawn i alluogi cefnogi'r boblogaeth leol.

Mae'r data yn dangos i ni bob rhai pobl gyda nodweddion a ddiogelir fel pobl anabl, pobl ifanc a phobl hŷn yn ystadegol yn fwy tebygol o ennill llai na'r cyflog cyfartalog, oherwydd ffactorau fel byw mewn ardaloedd gwledig sy'n cyfyngu ar opsiynau trafnidiaeth a chyfleoedd cyflogaeth. Mae'r polisi felly, gyda'r potensial nid yn unig i fod yn bositif i'r boblogaeth leol cyffredinol, ond yn benodol i rai pobl sydd gyda nodweddion a ddiogelir.

Yn ychwanegol, gallai'r polisi yma rhoi cymorth i'r iaith Gymraeg, gan fydd gan bobl (yn enwedig pobl ifanc) fwy o gyfleoedd i aros yn eu cymunedau lleol oherwydd y gallu i brynu tŷ yn lleol. Un o'r materion sydd effeithio ar sgiliau iaith Cymraeg yn Eryri yw'r allfudiad o siaradwyr Cymraeg ifanc ar fewnfudiad o bobl sy'n symud i mewn i'r Parc Cenedlaethol i ymddeol. Mae'r polisi yma gyda'r potensial i negyddu'r gwanhad yn yr iaith Gymraeg yn lleol.

Meini Prawf ar gyfer Tai Fforddiadwy:

Pan mae'n rhaid dangos angen am dy, mae'r meini prawf cymhwyster wedi cael eu dylunio'n fras, ac felly yn annhebygol o wahaniaethu yn uniongyrchol.

Mae'r diffiniad am angen tai yn y polisi yma yn cynnwys person sydd:

- Gyda gofyn angenrheidiol i fyw yn agos at berson arall sydd gyda lleiafswm o 10 mlynedd o breswylfa barhaol a di-dor yn yr ardal cymhwyso, y gofyn angenrheidiol yn codi oherwydd oedran neu reswm meddygol.
- Gofynion ychwanegol (oherwydd oed neu amhariad).

Gan fod llai na 3% o boblogaeth y Parc Cenedlaethol yn lleiafrif ethnig, nid yw'r polisi yma yn debygol o wahaniaethu yn erbyn y grŵp yma yn anghyfartal ac eraill. Ni fydd ffoaduriaid a cheiswyr lloches fel y rhai sydd wedi ymgartrefu yn lleol trwy er enghraifft y Rhaglen Ailsefydlu Ffoaduriaid o Syria yn cael eu heffeithio, gan eu bod yn cael llety rhent ac yn annhebygol o fod yn y farchnad dai.

Pryn bynnag, nid oes unrhyw gyfeiriad at dai hygyrch neu wedi eu haddasu yn y polisi. Mae'n bwysig i gynnwys tai hygyrch fel ystyriaeth yn y camau cychwynnol oherwydd bydd angen ôl troed mwy i bob cartref i'r rhai gydag amhariad symudol, yn enwedig defnyddwyr cadair olwyn; sydd angen toiled a chawod ar y llawr gwaelod, a hefyd i'r rhai sydd angen lle ar gyfer staff cynorthwyol i aros yn y tŷ. Pryn bynnag, nod y polisi yn y pendraw yw adnabod cyfanswm y nifer o dai, yn hytrach na'r maint ar ddyluniad, a fydd yn cael ystyriaeth yn y cam datblygu, felly nid yw'n berthnasol yma.

Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau

Nid oes unrhyw arwydd bod y polisi yma am wahaniaethu neu gael effaith negyddol ar unrhyw grwpiau o bobl gyda nodweddion a ddiogelir. Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

Ffynhonnell Data a Thystiolaeth

Archwiliad Cyhoeddus CDLIE.

Arolwg Aneddiadau.

Data'r Cyfrifiad 2011.

Ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn.

Cynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych.

Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r polisi fel canlyniad i'r broses sgrinio.

Y newid wedi cael ei adnabod trwy'r broses archwiliad cyhoeddus.

Polisi Datblygu 13: Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Pennaeth Polisiâu a Chynlluniau Strategol & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

Disgrifiad byr o'r Polisi – pwrpas a nod

Diben y polisi hwn yw darparu lleoliadau priodol, yn amodol ar fodloni meini prawf penodol ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r polisi a'r cyfiawnhad rhesymegol wedi cael eu diweddarau i sicrhau cydymffurfiaeth â chylchlythyr newydd Llywodraeth Cymru - Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn.

Polisi Datblygu 13: Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr (13)

O fewn y Parc Cenedlaethol bydd caniatâd cynllunio am safleoedd sipsi yn cael ei gymeradwyo ar yr amod y bodlonir y meini prawf canlynol:

- i. ~~Mae tystiolaeth o'r angen i leoli neu ddarparu trefniadau darvoudol yn yr ardal wedi'i bennu.~~
- ii. Nid oes lleiniau addas ar gael o fewn y safleoedd presennol yn ardal Awdurdodau Lleol Gwynedd neu Gonwy.
- iii. Ni fydd defnydd y safle yn achosi niwed sylweddol i amwynder preswyl na chyhoeddus.
- iv. Fod y safle ar raddfa gyfartal gyda'r gymuned sefydlog agosaf.
- v. Fod gan y safle ddarpariaeth ddigonol o wasanaethau hanfodol gan gynnwys gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu a gwasanaethau prif ffrwd gyflenwad, ac nid yw'n gosod unrhyw faich ychwanegol ar isadeiledd lleol.
- vi. Fod gan y safle fynediad uniongyrchol i brif ffordd ac ma ear lwybr taith bws sydd yn rhoi mynediad at wasanaethau lleol.
- vii. Nid yw'r cynnig yn ymddangos yn sylweddol ymwithiol, mae'n cydweddu a'r dirwedd ac mae wedi'i dirlunio'n foddhaol.

A ydych yn ystyried fod y polisi yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n bositif neu'n negyddol)

Niwtral.

Mae'r polisi yma yn caniatáu i safle(oedd) ar gyfer sipsiwn a theithwyr o fewn y Parc Cenedlaethol, yn amodol ar fodloni meini prawf penodol.

Mae'r meini prawf yn ymgorffori pethau fel mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau a gwasanaethau cefnogol lleol a.y.b., a fydd yn darparu budd positif i'r trigolion neu ddarpar drigolion y safle. Mae'r meini prawf felly yn dderbyniol ac yn synhwyrol, ac nid ydynt yn gosod rhwystr gwahaniaethol i ganiatáu'r math safleoedd.

Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau

Nid oes unrhyw arwydd bod y polisi yma am wahaniaethu neu gael effaith negyddol ar aelodau o'r cymunedau sipsiwn a theithwyr, sydd yn hanesyddol wedi wynebu rhwystrau gwahaniaethol wrth geisio cael hyd i lefydd i aros.

Mae'r polisi a fabwysiadwyd yn sicrhau bod safle addas sy'n cyrraedd yr amodau a nodwyd yn y polisi, yn gallu derbyn caniatâd cynllunio.

Ffynhonnell Data a Thystiolaeth

Archwiliad Cyhoeddus CDLIE.

Arolwg Aneddiadau.

Data'r Cyfrifiad 2011.

Ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn.

Cynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych.

Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r polisi fel canlyniad i'r broses sgrinio.

Mae 'tystiolaeth o'r angen' wedi cael ei dynnu allan o'r polisi ac wedi cael ei newid i 'nid oes unrhyw lefydd addas ar gael mewn safleoedd presennol' fel yr amod i'w gyrraedd. Mae hyn yn lleihau'r amodau, sydd yn newid positif.

Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy

Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Pennaeth Polisiâu a Chynlluniau Strategol & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

Disgrifiad byr o'r Polisi – pwrpas a nod

Pwrpas y polisi hwn yw creu a chadw economi wledig gynaliadwy o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Gwnaed eglurhad ynghylch pa safleoedd sydd wedi'u diogelu a ble.

Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy (H)

Er mwyn creu a chadw economi wledig gynaliadwy bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn:

- i. [Diogelu safleoedd cyflogaeth allweddol presennol yn y Bala, Dolgellau a Harlech](#)
- ii. Cefnogi datblygiad cyflogaeth a busnes newydd a chadw'r ddarpariaeth cyflogaeth presennol yn y canolfannau gwasanaeth lleol, aneddiadau gwasanaeth ac aneddiadau eilaidd. Rhaid I faint a graddfa'r datblygiad fod yn gymesur â maint a swyddogaeth yr anheddiad.
- iii. Hyrwyddo ailddefnyddio tir neu adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio neu ddim yn cael eu defnyddio ar gyfer dibenion economaidd neu gyflogaeth.
- iv. Cefnogi'r sector amaethyddol a chyfleoedd am arallgyfeirio gwledig nad yw'n cael effaith negyddol ar 'Rinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol.
- v. Cefnogi twristiaeth a gweithgaredd hamdden sy'n sicrhau'r buddiannau economaidd lleol uchaf, yn lleihau i'r eithaf yr effaith amgylcheddol, a diogelu 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol.
- vi. Cefnogi cynigion a fyddai'n darparu isadeiledd cefnogol addas i gynnal a hyrwyddo'r economi leol.
- vii. Cefnogi unedau byw-gweithio a gweithio o'r cartref.

~~Er mwyn diogelu safleoedd cyflogaeth a busnes nNi~~ Caniateir ceisiadau ar gyfer ailddefnyddio tir neu adeiladau cyflogaeth presennol ([heblaw safleoedd cyflogaeth allweddol](#)) ar gyfer pwrpasau eraill pan fo:

- viii. Y bydd y defnydd newydd yn achosi gwelliant sylweddol i'r amgylchedd sy'n gorbwyso'r golled o dir cyflogaeth, neu
- ix. Nad yw cadw'r ~~cyfleuster~~ cyflogaeth ~~neu fusnes~~ bellach yn ddichonadwy ac ni ellir ei ailddefnyddio ~~ar gyfer~~ i bwrpasau cyflogaeth ~~tebyg neu amgen~~ eraill a hysbysebwyd y potensial cyflogaeth ar y farchnad am o leiaf blwyddyn.
- ~~ix. Gyda tir a ddyrannwyd, bod tir o ansawdd cyfartal neu well yn cael ei roi ar gael mewn mannau eraill, hyd yn oed os nad yw hyn yn o fewn ffin y Parc Cenedlaethol~~

A ydych yn ystyried fod y polisi yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n bositif neu'n negyddol)

Positif.

Fel y nodwyd yn flaenorol o dan Tai, mae'r data yn cefnogi'r polisi yma ar gyfer y potensial o gael effaith positif, gan fod economi gwledig cynaliadwy mewn cydweithrediad gyda thai fforddiadwy yw'r ddau brif yrrwr i helpu'r boblogaeth yn lleol, yn enwedig pobl ifanc.

Mae'r polisi yma hefo'r potensial i roi help llaw i bobl ifanc a siaradwyr Cymraeg yn benodol, trwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy, sydd yn eu galluogi i aros yn lleol. Mae hyn yn cael effaith cronus ar y gallu i grwpiau o bobl gyda nodweddion a ddiogelir i gyfrannu i'r economi lleol.

Mae 'Diogelu safleoedd cyflogaeth allweddol bresennol' wedi cael ei ychwanegu i'r polisi, sydd yn ychwanegiad positif i'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny, gan fod y polisi nawr yn eglur o ran ei gefnogaeth barhaus.

Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau

Nid oes unrhyw arwydd bod y polisi yma am wahaniaethu neu gael effaith negyddol ar unrhyw grwpiau o bobl gyda nodweddion a ddiogelir. Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

Ffynhonnell Data a Thystiolaeth

Archwiliad Cyhoeddus CDLIE.

Arolwg Aneddiadau.

Data'r Cyfrifiad 2011.

Ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn.

Cynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych.

Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r polisi fel canlyniad i'r broses sgrinio.

Dim. Mae'r newidiadau a wnaed trwy'r broses archwiliad cyhoeddus wedi cael eu nodi uwchlaw.

Polisi Datblygu 21: Twristiaeth a Hamddena

Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Pennaeth Polisiâu a Chynlluniau Strategol & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

Disgrifiad byr o'r Polisi – pwrpas a nod

Diben y polisi hwn yw diogelu a gwella'r ddarpariaeth o gyfleusterau twristiaid presennol trwy fabwysiadu egwyddorion twristiaeth gynaliadwy. Ar ben hynny, mae'n cefnogi datblygiad twristiaeth newydd a gwella cyfleusterau presennol yn amodol ar fodloni'r maen prawf. Gwnaed gwelliannau i ddarparu eglurhad.

Polisi Datblygu 21: Twristiaeth a Hamddena (21)

O fewn y Parc Cenedlaethol diogelir ~~y ddarpariaeth o~~ gyfleusterau atyniadau twristiaeth presennol ac fe fyddant yn cael eu gwella trwy fabwysiadu egwyddorion twristiaeth gynaliadwy neu eco. Bydd datblygiad atyniadau twristiaeth newydd a gwella atyniadau presennol yn cael eu cefnogi pan:

- i. Ellir cael mynediad atynt trwy gyfrwng amrywiol ddulliau o deithio, yn enwedig rhai cynaliadwy fel cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus.
- ii. Y'i lleolir yn agos at y brif rwydwaith o ffyrdd a pan nad yw'n achosi cynnydd annerbyniol yn y traffig yn y cyffiniau.
- iii. Na fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol ar 'Rinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol.
- iv. Maent yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer deall a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol, heb niweidio mwynhad tawel, profiad ymwelwyr ac ansawdd bywyd y trigolion lleol.
- v. Mae'r cyfleuster wedi cael ei ddylunio neu ei newid i wella hygyrchedd i bawb, yn enwedig pobl anabl.
- vi. Nid yw'n cael effaith andwyol ar y golygfeydd tuag at neu o'r Parc Cenedlaethol ac nid yw'n creu cynnydd sylweddol mewn llygredd sŵn na golau a allai effeithio yn andwyol ar uniondeb Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri.
- vii. Fydd y cyfleusterau presennol yn cael eu gwella neu pan fo trosi adeilad gwag neu un a dan-ddefnyddir yn cael ei gynnig ~~-ochr yn ochr gydag ymdrechion i wella effeithlonrwydd ynni ac / neu pan ddarperir cyfran o'i anghenion ynni trwy gyfrwng ffynonellau ynni adnewyddol priodol.~~
- viii. ~~Mae yna ddigon o dir ynghlwm i'r datblygiad trwy gyfrwng dull priodol ar gyfer y cyfleuster twristiaeth arfaethedig.~~

ix.

Ni fyddai'n effeithio ar adnoddau bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol gan gynnwys safleoedd dynodedig o lefel ryngwladol drwedd i lefel leol, yn ogystal ag adnoddau bioamrywiaeth ehangach e.e. eynefinoedd a rhywogaethau y tu allan i safleoedd dynodedig.

Ni chaniateir newid defnydd lletai gwasanaeth ar gyfer y sector nas gwasanaethir, neu ei drosi ar gyfer dibenion eraill sydd a wneio dim byd â thwristiaeth a fyddai'n atal iddo gael ei drosi yn ôl i lety twristiaid a wasanaethir yn y Parc Cenedlaethol heblaw i fedloni angen cydnabyddedig am dai fforddiadwy.

A ydych yn ystyried fod y polisi yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n bositif neu'n negyddol)

Niwtral.

Mae'r polisi yn nodi bydd datblygiad o atyniad presennol yn cael eu cefnogi lle bydd y 'cyfleuster wedi cael ei ddylunio neu ei newid i wella hygyrchedd i bawb, yn enwedig i bobl anabl'.

Trwy wella mynediad i'r math yma o atyniadau, bydd hyn yn cael effaith positif ar bobl anabl yn benodol (twristiaid a'r boblogaeth leol). Mae'r polisi yma gyda'r potensial i ehangu'r cynnig twristiaeth o fewn y Parc Cenedlaethol trwy wneud yr atyniadau yn fwy hygyrch, ac felly yn sicrhau fod mwy o bobl yn gallu gwneud defnydd a chael mwynhad ohonynt.

Yn anuniongyrchol, mae cefnogi datblygu atyniadau twristiaeth gynaliadwy yn mynd i gael effaith ar yr economi leol, a fydd yn ei dro yn gallu rhoi cymorth i bobl eraill gyda nodweddion a ddiogelir, fel y nodwyd mewn sgriniadau blaenorol.

Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau

Nid oes unrhyw arwydd bod y polisi yma am wahaniaethu neu gael effaith negyddol ar unrhyw grwpiau o bobl gyda nodweddion a ddiogelir. Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

Ffynhonnell Data a Thystiolaeth

Archwiliad Cyhoeddus CDLIE.

Arolwg Aneddiadau.

Data'r Cyfrifiad 2011.

Ymatebion i'r ymgynghoriad.

Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r polisi fel canlyniad i'r broses sgrinio.

Dim.

Polisi Datblygu 27: Parth Menter Eryri

Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Pennaeth Polisiâu a Chynlluniau Strategol & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

Disgrifiad byr o'r Polisi – pwrpas a nod

Pwrpas y polisi hwn yw cydnabod dynodiad Parth Menter Eryri ac mae'n nodi fframwaith ar gyfer pennu ceisiadau cynllunio o fewn y Parthau.

Polisi Datblygu 27 Parth Menter Eryri (27)

Bydd angen cynhyrchu prif gynllun ~~manwl~~ amlinellol a arweinir gan dirwedd ar gyfer safleoedd Llanbedr a Thrawsfynydd a chytuno arnynt gyda'r Awdurdod, a fydd yn cynnwys briff datblygu, datganiad dylunio, ac atodlen sy'n nodi'r broses o ddatblygu a gwella'r seilwaith cysylltiedig sy'n ofynnol ar gyfer pob cam, cyn i unrhyw ddatblygiad ddechrau.

Bydd angen i'r prif gynllun amlinellol gael ei gefnogi gan asesiad tirwedd ac effaith weledol a dangos sut y bydd lleoliad, graddfa, dyluniad a chymeriad y datblygiad yn lleihau'r effeithiau andwyol ar gymeriad tirwedd, amwynderau gweledol, amgylchedd naturiol a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.

- A. Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau sy'n unol â rhannau B a C o'r polisi hwn yn cael eu cefnogi o fewn Parth Menter Eryri cyn belled â bod y meini prawf a ganlyn yn cael eu diwallu -
- i. ~~Bod~~ Mae'r dyluniad yn gydlynol ac o safon y dylunio'n uchel ac yn ymateb yn bositif i'r lleoliad tirwedd a gweledol sensitif ~~adlewyrchu gosodiad y dirwedd cithriadol a~~ Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol
 - i.ii. Bod gosodiad, uchder, ffurf a graddfa'r ~~deunyddiau a'r defnydd o liw o fewn y~~ datblygiad yn ei helpu i ymdoddi i'r dirwedd ac yn lleihau'r effeithiau andwyol sylweddol ar gymeriad y dirwedd ac amwynderau gweledol ~~yn briodol i'r safle lle y'i lleolir~~
 - iii. Mae cynigion datblygu wedi cael eu hystyried gan ystyried gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd a chanfuwyd eu bod yn cydymffurfio
 - ~~ii.iv. Mae'r prif gynllun a arweinir gan y dirwedd wedi dangos nod yw'r datblygiad yn golygu y bydd yna effaith andwyol ar gymeriad y dirwedd nac yn cael effaith weledol amhriodol~~
 - ~~iii.v. Nid yw'r datblygiad yn arwain at swm neu fath o draffig a fyddai'n arwain at faterion diogelwch y briffordd~~
 - vi. Mae'r datblygiad ar y naill safle a'r llall yn unol ag amlinelliad o brif gynllun ar gyfer y safle hwnnw.
 - ~~iv.vii. Mae'r datblygiad cyflogaeth yn gwneud y defnydd gorau o'r gweithlu lleol presennol~~
 - ~~v.viii. Nid yw'r datblygiad ar y naill safle a'r llall yn cael unrhyw effaith annerbiniol ar y warchodfa awyr dywyll~~

B. Llanbedr

O fewn yr ardal Parth Menter ehangach fel y nodwyd ar y mapiau cynigion, bydd datblygiad sy'n gysylltiedig â'r defnyddiau isod yn cael ei ystyried fesul achos. O fewn y dyraniad Dynodiad Parth Menter yn Llanbedr a nodwyd ar y mapiau cynigion, bydd y defnyddiau canlynol yn cael eu derbyn:

- o gweithrediadau a defnyddiau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant awyrennau a awyrofod, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â seilwaith a gwasanaethau maes awyr a rheoli gofod awyr;
- o defnydd newydd gan gynnwys **defnydd** cyflogaeth (B1, B2, B8) a defnyddiau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith ymchwil a datblygu (~~sy'n gysylltiedig â~~ **yn cynnwys** diwydiannau awyrennau ac awyrofod),
- o dibenion hyfforddiant ac addysg sy'n gysylltiedig â chyflogaeth;
- o defnyddio ategol eraill i'r defnydd a nodir uchod gan gynnwys llety, arlwyo a hamdden.

Dylid cyfeirio cynigion datblygu tuag at yr ardal ffocws ddangosol. Pan fydd datblygiad yn cael ei gynniig y tu allan i'r ardal hon, dylid bodloni'r meini prawf canlynol:

- o **bydd yn rhaid i gynigion manwl ddangos bod y datblygiad arfaethedig yn cynnwys mesur lliniaru perygl llifogydd cymeradwy a derbyniol y cytunwyd arno gyda CNC**
- o **nid oes effeithiau sylweddol annerbyniol ar y dirwedd nac amwynderau gweledol**
- o **cyflwynwyd digon o dystiolaeth bod y safle'n dangos yr effaith leiaf ar y dirwedd, amwynderau gweledol, treftadaeth amgylcheddol a diwylliannol**
- o **nid yw'r datblygiad wedi'i leoli mewn ardal a fydd yn atal defnyddio'r brif redfa**
- o **ni ddylai'r datblygiad effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd safleoedd dynodedig Ewropeaidd**
- o **cyflwynwyd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau pam na ellir lleoli'r datblygiad yn yr ardal ffocws ddangosol**

~~Mae rhan o'r ardal parth menter ehangach fel y nodwyd ar y map cynigion o fewn ardal e berygl llifogydd. Bydd angen i gynigion manwl ddangos bod y datblygiad arfaethedig yn cynnwys mesurau lliniaru perygl llifogydd priodol a derbyniol a cytunwyd arnynt gyda CNC.~~

A ydych yn ystyried fod y polisi yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n bositif neu'n negyddol)

Niwtral.

Mae'r polisi'n ymwneud â datblygiadau posibl o fewn neu o gwmpas Parth Menter Eryri, ac yn y cyfryw (yn ei gyd-destun ehangach) y gallai gael effaith gadarnhaol ar grwpiau penodol o ran darparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant lleol.

Gan fod y polisi'n canolbwyntio'n bennaf ar gyfyngiadau o ran sicrhau bod cynefinoedd, y dynodiad Awyr Dywyll, a'r effaith amgylcheddol gyffredinol fel llifogydd ac ati, ychydig iawn o fewn y polisi sy'n effeithio'n uniongyrchol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig.

Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau

Nid oes unrhyw arwydd bod y polisi yma am wahaniaethu neu gael effaith negyddol ar unrhyw grwpiau o bobl gyda nodweddion a ddiogelir. Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

Ffynhonnell Data a Thystiolaeth

Archwiliad Cyhoeddus CDLIE.

Arolwg Aneddiadau.

Data'r Cyfrifiad 2011.

Ymatebion i'r ymgynghoriad.

Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r polisi fel canlyniad i'r broses sgrinio.

Dim.

Polisi Datblygu 9: Addasu a newid defnydd adeiladau gwledig

Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Pennaeth Polisiâu a Chynlluniau Strategol & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

Disgrifiad byr o'r Polisi – pwrpas a nod

Diben y polisi hwn yw darparu arweiniad a gwybodaeth am ddatblygiadau sy'n ymwneud â throsi a newid defnydd adeiladau gwledig at ddefnyddiau eraill. Gwnaed gwelliannau oherwydd gwall golygu blaenorol.

Polisi Datblygu 9: Addasu a newid defnydd adeiladau gwledig (9)

Bydd addasu neu newid defnydd adeiladau gwledig diangen tu allan i unrhyw Ffin Datblygu Tai yn cael ei ganiatáu ar gyfer ~~tai fforddiadwy i fodloni angen lleol~~, defnydd cyflogaeth, llety gwyliau hunan arlwyyo tymor byr ~~fel rhan o gynllun arallgyfoirio menter gwledig, neu annedd marchnad agored o fewn taliad swm gohiriedig neu ar gyfer tai fforddiadwy i gwrdd ag anghenion lleol~~ ar yr amod bod y meini prawf canlynol yn cael eu cwrdd

- i. Fod yr adeilad o adeiladwaith parhaol a sylweddol, o ffurf a chymeriad traddodiadol â gwerth pensaernïol sydd werth ei gadw.
- ii. Fod modd addasu'r adeilad heb yr angen am ailadeiladu neu ymestyn sylweddol a fyddai'n niweidio'i gymeriad presennol.
- iii. Fod yr holl weithiau allanol yn cynnwys gorffeniadau a ffiniau eiddo sy'n gydymdeimladol â chymeriad yr adeilad, arddull a deunyddiau adeiladau lleol, ac nad ydynt yn niweidio cymeriad unrhyw grŵp o adeiladau cyfagos.
- iv. Nad yw'r cais nac unrhyw strwythurau ategol yn niweidio cymeriad y dirwedd ble maent wedi eu lleoli.
- v. Nid yw'r cynnig yn arwain at greu mynediad newydd i gerbydau neu fannau parcio a fyddai'n effeithio yn andwyol ar gymeriad neu ymddangosiad adeilad neu'r dirwedd ehangach.

Ble bo'r cais yn cynnwys Adeilad Rhestredig neu adeilad o ffurf neu ddyluniad traddodiadol, fod y cais yn cydymffurfio â Pholisi Datblygiad 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol.

Dim ond pan fo gofynion Polisi Strategol G: Tai yn cael eu cwrdd y rhoddir caniatâd ar gyfer aneddiadau fforddiadwy newydd gan gynnwys y posibilrwydd o symiau gohiriedig.

Bydd angen arolwg strwythurol annibynnol pan fo unrhyw amheuaeth ynghylch sefydlogrwydd strwythurol yr adeilad neu pan ystyrir y byddai'r gwaith arfaethedig yn arwain at ailadeiladu mawr neu sylweddol.

Rhaid i'r ymgeiswyr ddangos na fyddai'r defnydd **preswyl** arfaethedig yn disodli'r defnydd presennol sy'n golygu codi adeilad arall i'w alluogi i barhau.

A ydych yn ystyried fod y polisi yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n bositif neu'n negyddol)

Niwtral.

Mi fydd y polisi yma yn cael effaith positif cyffredinol ar sicrhau cael gwared ar rhai rhwystrau i fedru cael tai fforddiadwy tu allan i'r ffiniau datblygu. Mi all hyn cael effaith positif ar siaradwyr Cymraeg yn benodol, gan fuasai cais i newid adeilad i gartref fforddiadwy yn gallu sicrhau bob teulu yn gallu aros a gweithio yn yr ardal.

Nid oes unrhyw newidiadau perthnasol o rhan cydraddoldeb wedi cael eu gwneud i'r polisi ers yr asesiad sgriniad gwreiddiol.

Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau

Nid oes unrhyw arwydd bod y polisi yma am wahaniaethu neu gael effaith negyddol ar unrhyw grwpiau o bobl gyda nodweddion a ddiogelir. Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

Ffynhonnell Data a Thystiolaeth

Archwiliad Cyhoeddus CDLIE.

Arolwg Aneddiadau.

Data'r Cyfrifiad 2011.

Ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn.

Cynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych.

Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r polisi fel canlyniad i'r broses sgrinio.

Dim.

Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Tirwedd

Y person(au) sy'n ymgymryd â'r asesiad

Pennaeth Polisiâu a Chynlluniau Strategol & Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

Disgrifiad byr o'r Polisi – pwrpas a nod

Diben y polisi hwn yw ceisio sicrhau bod gosodiad a thirlunio o ddatblygiad newydd yn diogelu cymeriad y dirwedd. Gwnaed diwygiadau i roi mwy o eglurder a sicrwydd y bydd yr holl ystyriaethau tirwedd yn cael eu ystyried tra'n gwneud penderfyniadau.

Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Tirwedd (2)

Dylai graddfa a gosodiad datblygiad newydd yn cynnwys ei osodiad, a thirlunio a'i integreiddiad -barchu a diogelu cymeriad, ansawdd a golygfeydd y dirwedd. Ymwrthodir effeithiau annerbyniol ar y dirwedd a rhoddir ystyriaeth benodol iawn i warchod:

- i. Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri, yn benodol Ardaloedd Craidd
- ii. Gwarchodfa Biosffer Dyfi
- iii. Ardaloedd Adran 3 o harddwch naturiol¹.
- ii.iv. Arfordir sydd heb ei ddatblygu.
- iii.v. Golygfeydd sydd yn weladwy o olygfannau.
- a)vi. Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Sensitif ~~Ardaloedd cymeriad tirlun wedi ei seilio ar LANDMAP~~ fel y dyffinnir yng Canllawiau Cynllunio Atodol Tirweddau Eryri Nghanllaw Atodol ar Dirweddau Eryri a Asesiad Sensitifrwydd a Chynhwysedd y Dirwedd

A ydych yn ystyried fod y polisi yn cael effaith mawr ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir (un ai'n bositif neu'n negyddol)

Niwtral. Mae'r polisi yma yn ymwneud ag effaith datblygiad ar y dirwedd, ac felly yn cael yr effaith lleiaf ar unigolion a grwpiau o bobl.

Penderfyniad parthed asesiad llawn – nodwch eich rhesymau

¹ Fel y diffiniwyd o dan Adran 3 o'r Ddeddf Diwygio Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1985

Nid oes unrhyw arwydd bod y polisi yma am wahaniaethu neu gael effaith negyddol ar unrhyw grwpiau o bobl gyda nodweddion a ddiogelir. Wedi cwblhau'r sgrinio – dim angen am asesiad llawn.

Ffynhonnell Data a Thystiolaeth

Arolwg Aneddiadau.

Data'r Cyfrifiad 2011.

Ymatebion i'r ymgynghoriad.

Os ydych yn penderfynu nad oes angen asesiad llawn - nodwch unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r polisi fel canlyniad i'r broses sgrinio.

Dim newid.